# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 29 Gorffennaf 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Gorffennaf 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 7 Awst 2019 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi

---

**PWNC**: Penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Byw'n Iach Cyf.

---

**PENDERFYNIAD –**

I benodi'r Aelodau canlynol fel Cyfarwyddwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Byw'n Iach Cyf:

- Cyng. Mair Rowlands
- Cyng. Gareth Jones
- Cyng. Anwen Hughes

i'w weithredu erbyn 30 Medi 2019 ar ymddiswyddiad yr aelod cyfredol.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog yn atodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd ac adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 29/7/19. |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | [signature] |

**Pwnc :** Penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Byw'n Iach Cyf.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

I benodi'r aelodau canlynol fel Cyfarwyddwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Byw'n Iach Cyf:

Cyng. Mair Rowlands

Cyng. Gareth Jones

Cyng. Anwen Hughes i'w weithredu erbyn 30 Medi 2019 ar ymddiswyddiad yr aelod cyfredol

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae dwy sedd wag ar Fwrdd Cyfarwyddwr Cwmni Byw'n Iach Cyf. ar hyn o bryd gyda sedd pellach yn dod yn rhydd ym mis Medi eleni ar ymddiswyddiad yr aelod presennol y Cynghorydd Cemlyn Jones. Yn ddarostyngedig i'w Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli busnes y Cwmni; bydd y penodiadau arfaethedig yn galluogi i'r Bwrdd weithredu ar ei ddyletswyddau. Mae adnabod y darpar gyfarwyddwr yn caniatáu i drefniadau hyfforddi ac anwytho gael eu cynnal mewn un tranche sydd yn arbed dyblygu.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn unol â Deddf Cwmni 2006 mae gofyn i gyfarwyddwyr fod â sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i redeg cwmni ac mae ffactorau eraill fydd yn arwain at

ffurfio Bwrdd effeithiol a cynrychiadol. Fe ddefnyddiwyd yr egwyddorion isod fel canllaw ar gyfer penderfynu ar aelodaeth y Bwrdd:

- Fod cydbwysedd daearyddol, gwleidyddol, rhyw ac oedran ar y Bwrdd
- Fod Cynghorwyr yn gallu arddangos dealltwriaeth o rôl Cyfarwyddwr
- Fod Cynghorwyr gyda rhinweddau cyfathrebu cryf a'r gallu i fynegi barn gytbwys, yn gallu gwrando ar farn eraill; y gallu i herio a thrafod
- Fod Cynghorwyr â rhinweddau dadansoddi cryf; y gallu i ddarllen testun cymhleth a chynnig cwestiynau a sylwadau
- Gallu ymrwymo amser i'r Bwrdd
- Fod yna cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar y Bwrdd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro** – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb